

2018 Rhif 1

DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol (Llacio'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau) 2018

Gwnaed- - - 20 Mawrth 2018

Yn cael effaith yn unol â chyfarwyddyd 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45, 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006⁽¹⁾, ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 45(4) o'r Ddeddf honno â'r cyrff yr ymddangosai iddynt hwy eu bod yn cynrychioli'r personau y mae'r Cyfarwyddydau hyn yn ymwneud â'u tâl.

Enwi a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol (Llacio'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau) 2018.

(2) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu gwneud ar 20 Mawrth 2018 ac yn cael effaith mewn cysylltiad â thaliadau i'w gwneud o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol am y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2017 ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr “Cyfarwyddydau 2013” yw Cyfarwyddydau Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol 2013⁽²⁾ fel y'u diwygiwyd gan y cyfarwyddydau a restrir yn Atodlen 1 Atodiad J i'r Cyfarwyddydau hynny;

oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i'r geiriau a'r ymadroddion yr ystyr a roddir iddynt yng Nghyfarwyddydau 2013.

(1) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42).

(2) Cyfarwyddydau Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol 2013 (2013 Rhif 8) fel y'u diwygiwyd.

Cyflwyniad

3.—(1) O dan Gyfarwyddydau 2013 mae gan contractwyr GMS hawlogaeth i gael Taliadau Cyflawniad sy'n seiliedig ar gyfanswm y Pwyntiau Cyflawniad y mae'r contractwr yn ei gyflawni o dan y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau fel y'i cyfrifir, yn gyffredinol, ar ddiwrnod olaf y flwyddyn ariannol. Mae'r dull o gyfrifo Taliadau Cyflawniad wedi ei nodi yn Rhan 2 o'r Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol sydd wedi ei atodi i Gyfarwyddydau 2013 a'i Atodiadau.

(2) Mae'r Gyfarwyddydau a ganlyn yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer cyfrifo Cyfanswm y Pwyntiau Cyflawniad am y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018.

(3) O dan y Gyfarwyddydau hyn, mae Taliad Cyflawniad contractwr i'w gyfrifo yn unol â Chyfarwyddydau 2013 ond gydag addasiadau penodol i'r dull o gyfrifo Pwyntiau Cyflawniad.

(4) Ac eithrio'r addasiadau yn y Gyfarwyddydau hyn, mae Gyfarwyddydau 2013 yn parhau i fod yn gymwys.

Cyfrifo pwyntiau ar gyfer Parth y Rhwydwaith Clwstwr

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae gan contractwr a oedd cyn 1 Ionawr 2018 yn cymryd rhan ym Mharth y Rhwydwaith Clwstwr hawlogaeth i gael Pwyntiau Cyflawniad llawn am Barth y Rhwydwaith Clwstwr.

(2) Rhaid didynnu 30 o bwyntiau o'r pwyntiau a ddyfarnwyd i contractwr os na fodlonodd contractwr y gofyniad yn CND001W i rannu'r Cynllun Datblygu Practis tair blynedd a'r Fframwaith Asesu Cynaliadwyedd Meddygon Teulu (ac eithrio'r wybodaeth ariannol) â'r Bwrdd Iechyd Lleol erbyn 31 Mai 2017.

Cyfrifo pwyntiau ar gyfer y Parth Clinigol Gweithredol

5.—(1) Mae'r cyfrifiad a ganlyn yn gymwys ar gyfer y dangosyddion yn y Parth Clinigol Gweithredol ac eithrio'r ddau ddangosydd a nodir yng nghyfarwyddyd 6.

(2) Ar gyfer pob dangosydd, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddyfarnu i'r contractwr—

(a) nifer y Pwyntiau Cyflawniad a gafwyd yn y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018; neu

(b) nifer y Pwyntiau Cyflawniad a ddefnyddiwyd at ddibenion talu ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2017;

pa un bynnag yw'r mwyaf.

Dangosyddion a eithrir yn y Parth Clinigol Gweithredol

6. Ar gyfer y dangosyddion a ganlyn yn y Parth Clinigol Gweithredol, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddyfarnu nifer y Pwyntiau Cyflawniad a gyflawnwyd mewn gwirionedd gan y contractwr (yn y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018) yn unol â Chyfarwyddydau 2013—

(a) FLU001W; a


(b) FLU002W.

Taliadau Cyflawniad

7.—(1) Cyfanswm y Pwyntiau Cyflawniad at ddibenion talu yw swm cyfanredol nifer y pwyntiau y mae contractwr wedi eu hennill o dan gyfarwyddydau 4, 5 a 6.

(2) Rhaid i'r Taliad Cyflawniad terfynol ystyried unrhyw Daliad Dyhead y mae'r contractwr wedi ei gael mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018.

Llofnodwyd gan Karin Phillips, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru



Dyddiad: 20 Mawrth 2018